Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Holiadur cyn-arolygiad: llywodraethwyr

Hoffem wybod am eich rôl yn yr ysgol fel aelod o'r corff llywodraethu. Darllenwch bob datganiad gan ystyried eich profiadau eich hun fel llywodraethwr a thiciwch y blwch sy'n gweddu orau i'ch barn chi. Mae'r pedwar cwestiwn cyntaf yn amlddewis ac yn gofyn i chi dicio'r ateb perthnasol yn unig. Ar ôl hynny, cewch gyfleoedd i egluro mwy am y gwaith rydych chi'n ei wneud fel llywodraethwr.

Mae eich barn yn bwysig i ni. Mae eich atebion chi ac atebion eraill yn helpu i lywio'r arolygiad. Lle y bo'n briodol, gallwn hefyd ddefnyddio'r arolygon hyn i helpu i ffurfio darlun cenedlaethol o waith darparwyr addysg ledled Cymru.

**Mae'r arolwg yn ddienw.** Mae eich ymatebion yn gyfrinachol ac nid ydym yn gofyn am eich enw.

- Bydd arolygwyr Estyn yn darllen eich atebion.
- Ni fydd arolygwyr Estyn byth yn datgelu eich ymatebion unigol i'r ysgol nac i neb y tu allan i Estyn.

Yr unig amser y gallem rannu gwybodaeth â phobl eraill yw os oes gennym bryderon am ddiogelwch dysgwyr.

# Cwestiynau cyffredinol

**1. Pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth mae'r uwch arweinwyr yn darparu i chi yn eich rôl fel llywodraethwr?**

☐ Defnyddiol iawn
☐ Defnyddiol
☐ Ddim yn ddefnyddiol iawn
☐ Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

**2. A ydych chi'n derbyn gwybodaeth ar gyfer cyfarfodydd mewn modd amserol?**

☐ Ydw
☐ Nac ydw

**3. A ydych chi wedi derbyn hyfforddiant addas i'ch cefnogi yn eich rôl fel llywodraethwr ysgol?**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw

**4. A ydych chi'n teimlo eich bod chi'n chwarae rhan ddigonol yn hunanwerthusiad a chynllunio gwella'r ysgol?**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw

# Eich her a'ch cefnogaeth

## Rhowch enghreifftiau o sut mae'r corff llywodraethol wedi cynnig her a chefnogaeth i arweinwyr ysgol ar y canlynol:

**5. dilwylliant a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion**

**6. trefniadau'r ysgol ar gyfer atal unrhyw fwlio, gwahaniaethu neu aflonyddu**

**7. ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ysgol**

**8. cwricwlwm yr ysgol**

**9. y cynnydd a wnaed gan wahanol grwpiau o ddisgyblion, er enghraifft prydau ysgol am ddim, bechgyn / merched, disgyblion ag ADY**

**10. blaenoriaethau strategol yr ysgol**

**11. sefyllfa ariannol a blaenoriaethau gwariant yr ysgol**

**12. costau'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol i asesu'r baich ariannol ar deuluoedd a sicrhau mynediad teg i gyfleoedd**

**13. lles disgyblion (gan gynnwys y mesur bwyta ac yfed yn iach, presenoldeb ac iechyd meddwl)**

**14. lles staff (gan gynnwys lles y pennaeth, llwyth gwaith, absenoldeb staff, dosbarthu cyfrifoldebau)**

**15. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?**

**Os oes gennych unrhyw bryderon diogelu, anfonwch e-bost atom ar diogelu@estyn.gov.wales neu ffoniwch ni ar 02920 446446**

**Bydd eich atebion yn cael eu storio'n ddiogel ar ein cronfeydd data yn unol â'n polisi cadw data. I gael gwybodaeth am sut rydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, cyfeiriwch at ein hysbysiad preifatrwydd: Datganiad preifatrwydd | Estyn (llyw.cymru)**